

CYNGOR CYMUNED BETHESDA BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
Nos Fercher 19 Gorffennaf 2017

PRESENNOL:

Ward Ogwen

Y Cynghorydd Neville Hughes

Y Cynghorydd Walter Williams

Y Cynghorydd Mary Jones

Y Cynghorydd Einir Williams

Y Cynghorydd Griff Morris

Y Cynghorydd Gwilym Owen

Y Cynghorydd Bleddyn Williams

Ward Gerlan

Y Cynghorydd Ann Williams

Y Cynghorydd Linda Brown

Y Cynghorydd Dyfrig Jones

Ward Rachub

Y Cynghorydd Godfrey Northam

Y Cynghorydd Pearl Evans

Y Cynghorydd Susan Davies

Cynghorwyr Sir: Y Cyng. Rheinallt Puw a Paul Rowlinson

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Linda Brown.

Roedd yn bleser croesawu SCCH Gareth Davies i'r cyfarfod i adrodd ystadegau troseddu yr ardal a chael trafod unrhyw broblemau yn yr ardal.

Diolchwyd iddo am yr adroddiad ac am holl waith caled y ddau swyddog i'r ardal.

2. Datgan Diddordeb

Eitem 6, Llys Dafydd: Y Cyng. Godfrey Northam, Linda Brown ac Ann Williams; Eitem 7, Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes a Griff Morris.

3. Materion Brys

3.1 Ffurflen Flynyddol 2016-17

Penderfynwyd bod y ffurflen yn gywir, ac y bydd y Cadeirydd a'r Clerc yn ei arwyddo.

3.2 Maes parcio Gerlan-adroddwyd bod cwynion wedi eu derbyn ynglŷn a llanast yn y maes parcio. Y Cyng. Paul Rowlinson am ddod a hyn i sylw Cyngor Gwynedd.

4. Cofnodion

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2017.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Cloddiau wedi gor-dyfu ar hyd Ffordd Newydd Gerlan- y Cyng. Rheinallt Puw wedi ymweld a'r safle gyda Cyngor Gwynedd sy'n adrodd bod y cloddiau yn iawn fel y mae nhw.

5.2 Y gofeb -adroddwyd bod y Cyng. Gwilym Owen wedi clirio'r torchau ac wedi ei chwynnu. Adrododd bod safle'r gofeb angen ei bwyntio. Penderfynwyd gofyn wrth Mr Jackson i wneud y gwaith. Diolchwyd i'r Cyng. Gwilym Owen am wneud y gwaith.

5.3 Gofod parcio dros nos ar gyfer cerbydau ‘camper’ –penderfynwyd trefnu cyfarfod gyda Cyngor Gwynedd ar gyfer 7 Medi am 9.00 ym Mhlas Ffrancon i drafod ymhellach.

5.4 Un Llais Cymru- ymddiheuriadau gan y Cadeirydd nad oedd hi ar gael i fynychu'r cyfarfod cyffredinol blynyddol ar ddydd Sadwrn, 30 Medi 2017.

5.5 Bin Lôn Bach Odro- angen atgoffa Cyngor Gwynedd o'r broblem ac hefyd eu hysbysu bod top y bin yn Sgwar Rachub wedi malu.

5.6 Tudalen ‘Facebook’ – y Cyng. Bleddyn Williams a'r Clerc i edrych mewn sut mae creu tudalen ar gyfer y Cyngor.

6. Adroddiad Llys Dafydd

Adroddwyd bod Gŵyl Fynydda Ogwen am ddefnyddio'r safle ar bore Sadwrn 16 Medi, ac bod trefniadau mewn lle i ddechrau dod a Cwmni Llys Dafydd i ben.

7. Adroddiad Partneriaeth Ogwen

Adroddwyd bod y Bwrdd Rheoli wedi cyfarfod 4 Gorffennaf, lle cafwyd adroddiadau eiddo a chyllid ac hefyd adroddiad gan y Rheolwr Prosiect. Adroddwyd bod dyddiad wedi ei bennu ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bartneriaeth sef 17 Hydref 2017.

8. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr

Grŵp Gwasanaethau ac Asedau Dyffryn Ogwen-adroddwyd bod Burum wedi dechrau ar yr ymarferiad sgopio ac wedi bod o gwmpas y safle ac wedi nodi rhai defnyddiau posibl ar gyfer y dyfodol.

Cyng. Rheinallt Puw- wedi cyfarfod gyda Steffan Jones o Gyngor Gwynedd ynglŷn a thorri a casglu gwair. Y gwair heb gael ei gasglu hyd yn hyn, ond am ddod yn ôl i wneud. Adroddwyd hefyd gan y Cyng. Godfrey Northam bod y gwair yn flêr o amgylch y fainc ger mynwent Coetmor. Y Cyng. Rheinallt Puw am sôn gyda Cyngor Gwynedd.

9. Gohebiaeth

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Gorffennaf 2017'

9.1. E-bost gan Cylch yr Iaith parthed apêl cais cynllunio Morbaine Ltd (Pen y Ffridd, Bangor)- penderfynwyd anfon llythyr at Lesley Griffiths AC a Chyngor Gwynedd, yn cytuno gyda sylwadau Cylch yr Iaith, ac bod angen adeiladu cyfnod 1, 2 a 3 yn raddol.

9.2 Llythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri-fersiwn adneuo Cynllun Datblygu Lleol Eryri diwygiedig 2016-2031. Nodwyd yr ohebiaeth

9.3 E-bost gan Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn-sesiynau amrywiol drwy gydol mis Awst. Y Cynghorwyr i fynychu os yn gallu

9.4 E-bost gan Un Llais Cymru – rhestr o fodiwlau hyfforddiant sydd ar gael rhwng mis Mai a Rhagfyr. Y Cyng. Mary Jones am fynychu'r hyfforddiant yn Llangefni 14 Medi .

9.5 Copi o lythyr gan y Cynghorwyr Sir at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd ynglŷn â threfn torri gwair ardal Dyffryn Ogwen. Y Cyngor yn llongyfarch y gweithio ar y cyd ac yn cefnogi'r llythyr at Dilwyn Williams.

10. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio

Penderfyniadau

C17/0489/13/LL

4 Fron Bant, Gerlan Road, Gerlan

Estyniad unllawr ar gefn yr eiddo
Caniatawyd, gydag amodau

C17/0413/13/LL

9 Victoria Place, Bethesda

Newid defnydd tŷ i 2 fflat hunan-gynhaliol

Caniatawyd, gydag amodau**C17/0556/13/LL**

18 Hill Street, Gerlan

Codi estyniad llawr cyntaf ar ben estyniad unllawr cefn presennol

Dim penderfyniad hyd yn hyn**C07/0411/13/LL**

Heulfryn, Carneddi Road, Carneddi

Codi estyniad dros estyniad unllawr

Caniatawyd, gydag amodau**Ceisiadau****C17/0604/13/CR**

Capel Bethania, Ffordd Bangor, Bethesda

Gwaith atgyweirio i gynnwys dymchwel adeilad/estyniad allanol presennol

Dim gwrthwynebiad**11. Taliadau**Awdurdodwyd y canlynol

Cyflogau (Gorffennaf)	£260.00
CThEM (Gorffennaf)	£65.00
C Jackson -Llys Dafydd	£60.00
Londis-papurau Mehefin	£23.10
Scottish Power – Trydan Gorffwysfan	£52.82